

Cynulliad Cenedlaethol Cymru Y
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd
a Materion Gwledig
Memorandwm Cydsyniad
Deddfwriaethol (MCD) mewn perthynas
â Bil Amgylchedd y DU
NHAMG (5) EB03
Ymateb gan Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

National Assembly for Wales Climate
Change, Environment and Rural Affairs
Committee
Legislative Consent Memorandum
(LCM) in relation to the UK Environment
Bill
CCERA(5) EB03
Evidence from The Consumer Council
for Water



Ymateb CCW i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Diolch am roi'r cyfle i CCW gyfrannu at waith y Cynulliad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil yr Amgylchedd (DU). Ni yw'r [cynrychiolwyr defnyddwyr dŵr statudol yng Nghymru](#) a Lloegr.

Deallwn fod Llywodraeth Cymru yn meddwl y gallai Bil yr Amgylchedd ddarparu'r fframwaith angenreidiol ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae CCW yn deall pa mor bwysig yw hi fod darpariaethau Bil yr Amgylchedd yn rhoi ystyriaeth lawn i faterion datganoledig a threfniadau yng Nghymru. Mae hwn yn fater ar gyfer Gweinidogion a'r Cynulliad. Ar sail cynnwys y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a ddosbarthwyd i ni rydym yn ystyried bod hyn yn cael sylw drwy'r sylwadau a gyflwynwyd.

Mae CCW yn cefnogi'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir gan Fil yr Amgylchedd (DU).

Yn gryno, y cynigion pwysicaf sy'n berthnasol i ddŵr a charthffosiaeth rydym ni'n eu cefnogi yw:

- **Caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cwmnïau dŵr i lunio Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, cynlluniau sychder, a chydweithio ar gynigion ar y cyd ar gyfer cynlluniau a threfniadau o'r fath.** Rydym o'r farn bod hyn yn bwysig o ystyried y trafodaethau sydd ar y gweill ar drosglwyddo dŵr yn y dyfodol, a nodwyd fel pwnc i'w drafod ymhellach yn [Adroddiad Blynnyddol Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru](#).
- **Datblygu cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff statudol**, y credwn a fydd yn hwyluso'r gwaith o gynllunio'n strategol ac yn hirdymor gwasanaethau dŵr gwastraff a draenio yng Nghymru. Mae hyn yn bwysig iawn oherwydd yr heriau sy'n ein hwynebu yn sgil seilwaith sy'n heneiddio a mwy a mwy o law a risg llifogydd yng Nghymru.
- **Cyflwyniad posibl labelu effeithlonrwydd dŵr.** Rydym yn cytuno'n llwyr y dylid arddangos gwybodaeth am effeithlonrwydd dŵr ar gynhyrchion defnyddio dŵr. Gall hyn alluogi defnyddwyr i wneud penderfyniadau a all helpu i leihau eu defnydd dŵr personol. Gallai labeli effeithlonrwydd dŵr hwyluso'r cyfathrebu a'r gwaith newid mewn ymddygiad y mae rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei wneud gyda'i gilydd drwy Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru a sefydlwyd yn ddiweddar.
- Ofwat yn gallu **gofyn am wybodaeth (yn electronig) gan gwmnïau at ddibenion monitro**.



The voice for water consumers
Y corff sy'n rhoi llais i ddefnyddwyr dŵr

- **Yr Ysgrifennydd Gwladol yn pennu'r sylweddau i'w hystyried wrth asesu statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear, ac yn nodi safonau ar gyfer y sylweddau hynny mewn perthynas â statws cemegol dŵr wyneb neu ddŵr daear.** Bydd rheoliadau yn cael eu hymestyn i Gymru os yw'r Cynulliad yn cydysynio â'r Rheoliadau hyn neu os nad oes ganddi'r cymhwysedd gweithredol yn y materion hyn. Byddem yn cefnogi cydweithio ar draws yr adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru a'r DU.



The voice for water consumers
Y corff sy'n rhoi llais i ddefnyddwyr dŵr

CCW response to Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee, National Assembly for Wales Legislative Consent Memorandum

Thank you for giving CCW the opportunity to feed into the Assembly's work on the Environment Bill (UK) Legislative Consent Memorandum. We are [the statutory water consumer representative in Wales](#) and England.

We understand that the Welsh Government thinks the Environment Bill could provide the necessary framework for environmental governance in Wales after the UK leaves the European Union.

CCW understands how important it is that the Environment Bill provisions take devolved matters and arrangements in Wales fully into account. This is a matter for Ministers and the Assembly. Based on the content of the Legislative Consent Memorandum circulated to us we think this is being addressed through the representations made.

CCW is supportive of the legislative changes proposed by the Environment Bill (UK). In summary the most important proposals relevant to water and sewerage we are supportive of are:

- **Allowing Welsh Ministers to direct water companies to produce Water Resource Management Plans (WRMPs), drought plans, and working together on joint proposals for such plans and schemes.** We consider this important considering the emerging discussions on future water transfer, identified as a topic for further discussion in the [National Infrastructure Commission's for Wales Annual report](#).
- **The development of statutory drainage and wastewater management plans,** which we think will facilitate the strategic and long-term planning of wastewater and drainage services in Wales. This is very important because of the challenges faced by aging infrastructure and increased rainfall and flood risk in Wales.
- **The potential introduction of water efficiency labelling.** We strongly agree that information on water efficiency should be displayed on water using products. This can empower consumers to make decisions that can help reduce their personal water use. Water efficiency labelling could help facilitate the communication and behavioural change work stakeholders in Wales are collectively undertaking through the recently established Water Efficiency Group Wales.
- Ofwat being able to **request information (electronically) from companies for monitoring purposes.**



The voice for water consumers
Y corff sy'n rhoi llais i ddefnyddwyr dŵr

- **The Secretary of State determining the substances to be taken into account in assessing the chemical status of surface water or groundwater, and to specify standards for those substances in relation to the chemical status of surface water or groundwater.**

Regulations will be extended to Wales if the Assembly consents to these Regulations or if it does not have the executive competence in these matters. We would support collaborative working across the relevant Welsh and UK Government departments.